# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3) 08-09 : Cofnodion

**Dyddiad: Dydd Mawrth 19 Mai 2009**
**Amser: 09.31- 10.59**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd, Bae Caerdydd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Val Lloyd AC, Dwyrain Abertawe (Cadeirydd)

Andrew RT Davies AC, Canol De Cymru

Mike German AC, Dwyrain De Cymru

Bethan Jenkins AC, Gorllewin De Cymru

### Swyddogion

Alun Davidson, Clerc

Gareth Thomas, Dirprwy Glerc

Joanest Jackson, Cynghorwr Cyfreithiol

### Cyflwynwyr

Dawn Gullis, Swyddog Ymgyrchoedd, Mencap Cymru

Liz Neal, Cyfarwyddwr, Mencap Cymru

Barbara Teague, Rheolwr Cyflogaeth, Mencap Cymru

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

### 2. Sesiwn dystiolaeth: Deiseb P-03-170 Mencap Cymru

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan y deisebwyr.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ynghylch datganiadau polisi cyfredol ac a oedd gan lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i greu polisi cyffredinol ar gyflogaeth i bobl ag anableddau dysgu

Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Menter a Dysgu a'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal am y ddeiseb hon

### 3. Deisebau newydd

### (i) P-03-181 Anemia dinistriol

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am fanylion y cynllun peilot y cyfeiriodd y deisebwr ato, ac am y modd y mae llywodraeth Cymru'n ymdrin ag anemia dinistriol

### (ii) P-03-200 Camlas Morgannwg

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ofyn i'r Gweinidog dros Dreftadaeth a yw'n ymwybodol o unrhyw gynlluniau i ddatblygu llwybr hanesyddol i gamlas Morgannwg, ac am ei farn am fanteision creu llwybr o'r fath

Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai a yw hi'n ymwybodol o unrhyw faterion mynediad mewn perthynas â chreu llwybr hanesyddol

### (iii) P-03-205 Cadwch Marchnad Da Byw'r Fenni

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol am fanylion unrhyw bwerau sydd gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Deddf y Fenni 1854

Gofyn i dîm cyfreithiol y Cynulliad am nodyn ynghylch unrhyw bwerau sydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Deddf y Fenni 1854

### (iv) P-03-218 Achubwch Bentref Gwenfô

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ofyn i'r tîm clercio gasglu gwybodaeth berthnasol o'r ymchwiliadau i ddeiseb NEVAR, ac i anfon y wybodaeth honno at y deisebwr

Aros am ymateb y Dirprwy Brif Weinidog i lythyr y Pwyllgor ynghylch y dystiolaeth a'r achos busnes o blaid y ffordd liniaru arfaethedig i'r maes awyr

### (v) P-03-220 Gostwng y terfyn cyflymder ar ffordd yr A40 ger y Fenni

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf.

**Camau i'w cymryd:**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ofyn i'r Dirprwy Brif Weinidog a gafodd y gwelliannau y cyfeiriodd atynt yn ei ohebiaeth â'r deisebwr dyddiedig 20 Hydref 2008 eu gwneud

## 4. Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### (i) P-03-098 Dileu enw Ysgol Gyfun Rhydfelen

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ofyn i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau am ei barn am lythyr y Pwyllgor Menter a Dysgu at y Pwyllgor dyddiedig 29 Ebrill 2009

### (ii) P-03-099 Llwybr Ceffylau yn Nhalybont-ar-Wysg

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ofyn i'r Dirprwy Brif Weinidog am gopi o'r adroddiad y soniodd amdano yn ei lythyr at y Pwyllgor, ar ôl i'r adroddiad gael ei gytuno arno, ac am wybodaeth am y meini prawf a nodwyd yn y briff a roddwyd i Asiantaeth Cefnffyrdd Canolbarth Cymru ynghylch datblygu'r adroddiad

### (iii) P-03-124 Cysgliad

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ofyn i Ganolfan Bedwyr am fanylion y telerau a gynigiwyd i Fwrdd yr Iaith Gymraeg, ac am y posibilrwydd o gynnig fersiwn Windows o Cysgliad am ddim yn y tymor byr

### (iv) P-03-144 Cŵn Tywys y Deillion

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ailystyried y briff a gafwyd gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn ystod y cyfarfod nesaf

(v) P-03-153 Celf Corff

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am fanylion yr asesiad o'r dewisiadau o ran rheoliadau mewn perthynas â chelf corff

### (vi) P-03-179 Myfyrywr ôl-19 sydd ag anghenion dysgu ychwanegol

### (vii) P-03-203 Scope Cymru

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y deisebau hyn.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Aros am ymateb llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu a'r ddadl ddilynol a gafwyd yn y Cyfarfod Llawn.

### (viii) P-03-197 Achub y Vulcan

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Wahodd Cyngor Caerdydd i ddod i un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol i gynorthwyo'r Pwyllgor ddeall y broses o restru adeiladau lleol pwysig

Gofyn i Jenny Randerson AC a yw hi'n gallu rhoi copi o'r llythyr a gafodd gan Gyngor Caerdydd ynghylch rhestru lleol

### (ix) P-03-206 Nofio am ddim drwy'r flwyddyn i blant a phobl ifanc

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ofyn i'r Gweinidog dros Dreftadaeth am ei farn ynghylch ymestyn y fenter nofio am ddim

Gofyn i'r Pwyllgor Archwilio am y newyddion diweddaraf ar y cynnydd a wnaed gan lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r fenter nofio am ddim

Gofyn i'r Prif Swyddog Meddygol am ei farn am fanteision nofio am ddim drwy'r flwyddyn o safbwynt hybu iechyd

### (x) P-03-207 Cymorth i'r di-waith ym Mynwy

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ofyn am farn ysgrifenedig y deisebwyr am ymateb llywodraeth Cymru

Gofyn i'r Ganolfan Byd Gwaith a fyddai'n fodlon derbyn cynnig Cyngor Sir Mynwy i ddarparu cyfleusterau.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Mai 2009**